

---

## **Dyfodol plwraliaeth y cyfryngau yn y DU**

Adroddiad Ofcom i'r Ysgrifennydd Gwladol ar Reolau  
Perchnogaeth ar y Cyfryngau a'n camau nesaf ar  
blwraliaeth y cyfryngau

---

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 17 Tachwedd 2021

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

Mae'r ffyrdd y mae defnyddwyr a dinasyddion yn rhyngweithio â chyfryngau newyddion wedi newid yn ddramatig dros y blynyddoedd diwethaf. Mae technoleg newydd wedi galluogi pobl i ymgysylltu â newyddion mewn ffyrdd na ellid eu darogan o'r blaen ac mae wedi herio modelau busnes sefydliadau cyfryngau newyddion traddodiadol. Yn erbyn y cefndir hwn, erys plwraliaeth y cyfryngau'n gonglfaen i gymdeithas ddemocrataidd sy'n gweithredu'n dda.

Mae'n ddyletswydd statudol ar Ofcom i sicrhau a chynnal plwraliaeth ddigonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol. Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i adolygu gweithrediad y rheolau perchnogaeth ar y cyfryngau a restrir o dan adran 391 Deddf Cyfathrebiadau 2003, bob tair blynedd. Mae'r Datganiad hwn yn nodi ein hargymhellion gan ddilyn ein hadolygiad diweddaraf o'r rheolau hynny.

Ochr yn ochr â'r adolygiad o'r rheolau, ym mis Mehefin 2021, gwnaethom lansio rhaglen waith – gan ddechrau gyda chais am dystiolaeth – i ddeall pa effaith y gallai newidiadau yn y farchnad ar gyfer newyddion ei olygu ar gyfer plwraliaeth y cyfryngau, gan edrych y tu hwnt i'r rheolau perchnogaeth ar y cyfryngau presennol.

## Yr hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

### Dyfodol Plwraliaeth y Cyfryngau yn y DU

Gan gymryd ymatebion i'n cais am dystiolaeth i ystyriaeth, a'n gwaith parhaus ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, credwn fod tair nodwedd o dirwedd fodern cyfryngau'r DU a allai beri risg i blwraliaeth y cyfryngau, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y fframwaith rheoleiddio presennol:

- Mae cyfryngwyr ar-lein a'u halgorithmau'n rheoli'r amlygrwydd y maent yn ei roi i wahanol ffynonellau a storïau newyddion.
- Nid yw'r sail y mae cyfryngwyr ar-lein yn darparu newyddion drwy eu algorithmau arni yn ddigon tryloyw.
- Nid yw defnyddwyr bob amser yn ymgysylltu'n feirniadol â chywirdeb a natur dueddol newyddion ar-lein.

Byddwn yn awr yn datblygu gwaith i bennu a yw'r materion hyn yn peri pryderon o ran cynnal plwraliaeth y cyfryngau yn y DU, a sut, ac i ystyried beth, os o gwbl, fyddai'r opsiynau posib ar gyfer ymdrin â'r pryderon hyn. Byddwn yn anelu at ddarparu ein barn ar y pwyntiau hyn erbyn haf 2022. Byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn cydlynu ein gwaith ar blwraliaeth y cyfryngau â meysydd perthnasol o waith Ofcom, gan gynnwys cyfeirio ein gwaith gyda'r CMA a'r Uned Marchnadoedd Digidol anstatudol, a chydag aelodau eraill o'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF).

### Adolygiad o'r Rheolau Perchnogaeth ar y Cyfryngau: Argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol

Mae Senedd y DU wedi sefydlu pedair rheol perchnogaeth ar y cyfryngau gyda'r nod o hyrwyddo plwraliaeth ac atal dylanwad gormodol dros yr agenda a'r broses wleidyddol. O ganlyniad i'n hadolygiad tair blynedd rydym yn argymhell i'r Ysgrifennydd Gwladol y dylid cadw rhai o'r rheolau hynny fel y maent, ac addasu rhai eraill.

### **Rheolau mewn perthynas â Channel 3: Rheolau Perchnogaeth ar draws y Cyfryngau a Darparwr Newyddion Penodedig**

Rydym yn cynnig bod yr Ysgrifennydd Gwladol, am y tro, yn cadw'r Rheol Perchnogaeth ar Draws y Cyfryngau a'r Rheol Darparwr Newyddion Penodedig gan i ni ystyried eu bod yn chwarae rôl bwysig o hyd wrth ddiogelu plwraliaeth.

#### **Prawf Buddiant y Cyhoedd yn y Cyfryngau**

Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ehangu cwmpas y fframwaith Prawf Buddiant y Cyhoedd yn y Cyfryngau presennol y tu hwnt i bapurau newydd printiedig a darlledwyr i gwmpasu amrediad ehangach o "grewyr newyddion". Credwn y byddai hyn yn adlewyrchu'n well y ffordd y mae pobl yn cael mynediad i newyddion a'i ddefnyddio heddiw.

#### **Y Cyfyngiadau ar Bersonau wedi'u Diarddel**

Mae'r cyfyngiadau ar Bersonau wedi'u Diarddel yn gyfres o gyfyngiadau ar endidau penodol sy'n dal trwyddedau darlledu, a gyflwynwyd i atal y cyrff hyn rhag cael gormod o ddylanwad ar wasanaethau darlledu.

Credwn y dylid cadw rhai cyfyngiadau ar endidau sy'n dal trwyddedau darlledu, gan yr ymddengys i ni fod y sail resymegol dros gyflwyno nhw'n dal i fod yn berthnasol. Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gadw: y gwaharddiad nad yw'n ddisgresiynol ar gyfer cyrff crefyddol, y gwaharddiadau ar gyfer cyrff gwleidyddol ac awdurdodau lleol, y gwaharddiad ar gyfer y BBC, S4C a Channel 4 Corporation, a'r cyfyngiadau ar bwy all ddal trwyddedau radio cymunedol analog.

Fodd bynnag, credwn fod dewis sylweddol ehangach i ddefnyddwyr, argaeledd ehangach o sbectrw m a'r amddiffyniadau a ddarperir gan rannau eraill o reoleiddio yn golygu nad oes angen rhai o'r cyfyngiadau ar endidau penodol sy'n dal trwyddedau darlledu er mwyn atal dylanwad gormodol mwyach. Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ddileu'r gwaharddiad disgresiynol ar gyfer cyrff crefyddol, y gwaharddiad ar asiantaethau hysbysebu a'r gwaharddiadau ar gyrff a ariennir yn gyhoeddus.